

SECTORAU DIWYDIANT ALLWEDDOL



Meetcardiff.com
Hydref 2020



GWASANAETHAU ARIANNOL A PHROFFESIYNOL



Mae Caerdydd wedi datblygu'n lleoliad allweddol i fusnesau cyllid gyda phencadlys nifer o wasanaethau ariannol a thechnoleg ariannol blaenllaw yn y ddinas.

Noda ymchwil gan Lywodraeth Cymru mai Caerdydd yw'r lleoliad dewisol ar gyfer canolfannau cyswllt a rhannu gwasanaeth yn y DU, ac mae gan y ddinas enw da cynyddol o ran AD, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau corfforaethol eraill sydd ar gontract allanol.

Mae sector ariannol llewyrchus Caerdydd yn cynnwys nifer gynyddol o gwmnïau yswiriant a phensiwn sy'n ymgartrefu yn y ddinas. Mae cyfran y bobl a gyflogir mewn yswiriant bywyd saith gwaith yn uwch na chyfartaledd y DU. Wedi'i chynnwys yn 100 uchaf y byd ar gyfer Busnes ac Economeg,

mae gan Ysgol Fusnes Caerdydd berthynas agos â busnesau yn y ddinas, gan gynnwys trefniant cydweithio gyda Legal & General, sydd wedi creu clwstwr tanysgrifenydd meddygol mwyaf y DU. Mae'r Ysgol Fusnes hefyd wedi cydweithio ag OSTC i ddatblygu Ystafell Fasnachu Caerdydd.

Mae nifer o gwmnïau gwasanaethau ariannol a gydnabyddir yn rhyngwladol, rhai o gwmnïau cyfrifyddiaeth mwyaf y DU a chwmnïau lleol wedi ehangu eu gweithrediadau yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Ymhlith y rhain mae Admiral, a lansiwyd yng Nghaerdydd ym 1993 gyda 57 o staff a dim cwsmeriaid. Erbyn hyn mae ganddo drosiant o fwy nag 1 biliwn, mae'n cyflogi 10,000 o bobl mewn wyth gwlad ac mae ganddo dros 6 miliwn o gwsmeriaid ledled y byd.

GWASANAETHAU ARIANNOL A PHROFFESIYNOL

Cefnogwyd twf Admiral gan addysg uwch yn y ddinas, sydd nid yn unig yn darparu llif cyson o raddedigion medrus, ond sydd hefyd yn gweithio'n agos gyda busnes i gynllunio a llunio cyrsiau ar gyfer y sector yn y dyfodol.

Mae gan Gaerdydd enw da cynyddol hefyd fel prifddinas technoleg ariannol sy'n opsiwn gwahanol i Lundain, ac mae'n cael ei chydabod fel esiampl dda yn y maes technoleg safle agregu ariannol. Cefnogir y sector gan Raglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru gyda chefnogaeth cyflogwyr gwasanaethau ariannol blaenllaw, gan gynnwys Admiral, Atradius, Hodge Bank, Banc Datblygu Cymru, Cymdeithas Adeiladu'r Principality,

Legal & General a Motonovo.

Mae mentrau eraill a sefydlwyd i gefnogi'r sector technoleg ariannol yn cynnwys Academi Seiber-Ddiogelwch Genedlaethol, prosiect arloesol i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arbenigwyr seiber-ddiogelwch a sefydlwyd gan Brifysgol De Cymru a Llywodraeth Cymru, ac Academi Feddalwedd Genedlaethol Prifysgol Caerdydd sy'n ceisio mynd i'r afael â'r prinder cenedlaethol o raddedigion rhaglennu a pheirianeg meddalwedd medrus.



- Mae gweithgareddau ariannol ac yswiriant, eiddo tiriog a gwasanaethau busnes yn cyfrif am £3.5 biliwn o allbwn sy'n gwneud Caerdydd yn un o sectorau gwasanaethau ariannol a phroffesiynol mwyaf y DU y tu allan i Lundain

- Caerdydd sydd â'r treiddiad gorau o fand eang cyflym iawn o blith Dinasoedd Craidd y DU, wedi'i hybu gan Gyfnwdfia Rhyngrwyd yng nghanol y ddinas

DIWYDIANNAU CREADIGOL A DIGIDOL



Caerdydd yw un o'r sectorau creadigol mwyaf a mwyaf llwyddiannus y tu allan i Lundain. Mae cymuned greadigol y ddinas, sy'n tyfu'n gyflym, yn ifanc, yn ddeallus ac yn gyflym i groesawu technolegau newydd ac arloesedd digidol.

Mae Caerdydd yn arloeswr o ran cydleoli sgiliau creadigol a thechnegol sydd wedi creu dinas sy'n ganolbwynt i sector diwydiannau creadigol Cymru gyda chryfderau penodol yn y meysydd darlledu, teledu a chynhyrchu ffilmiau. Denir crynhoed sylweddol o gwmnïau creadigol i Gaerdydd, wedi'u hannog gan bresenoldeb darlledwyr mawr fel y BBC, ITV ac S4C a'r gefnogaeth a gânt gan ragoriaeth academiaidd y ddinas.

Mae Caerdydd wedi dod yn un o brif ganolfannau cynhyrchu sgrin y DU ac mae'n gartref i Bentref Drama'r BBC. Wedi'i leoli ym Mae Caerdydd, mae'r cyfleuster 170,000 troedfedd sgwâr yn cynnwys 9 stiwdio ac yn cyfateb o ran hyd i dri chae pêl-droed. Erbyn hyn mae'n gartref parhaol a phwrpasol i rai

o ddramâu blaenllaw'r BBC - Sherlock, Casualty a Doctor Who.

Mae cwmnïau fel Bad Wolf, a sefydlwyd i greu drama uchelgeisiol a dychmygus ar gyfer y DU, UDA a marchnadoedd teledu byd-eang, yn crynhoi ein sail gynhyrchu. Mae Bad Wolf wedi sicrhau llif o gynrychiadau teledu gan gynnwys addasiad o drioleg ffantasi Philip Pullman, His Dark Materials, a ffilmwyd yn eu cyfleuster 250,000 troedfedd sgwâr newydd, Wolf Studios Wales.


Mae BBC Cymru wedi buddsoddi mewn pencadlys rhanbarthol newydd a ddyluniwyd gan Foster & Partners yn y Sgwâr Canolog. Mae'r adeilad trawiadol hwn yn ganolbwynt i gyrchfan newydd i'r sector creadigol yng nghanol y ddinas.

Yn ogystal â bod yn lleoliad gwych i bwysigion y sector creadigol, mae Caerdydd hefyd yn gartref i gymuned gynyddol o fusnesau newydd sydd wedi bod yn cynyddu o ran maint a hyder.

DIWYDIANNAU CREADIGOL A DIGIDOL

Mae'r ddinas yn elwa o rwydwaith sy'n tyfu'n gyflym o stiwdios artistiaid, canolfannau creadigol a mannau cydweithio, o'r Gloworks newydd ym Mae Caerdydd i Tramshed Tech, Rabble Studio ac Indycube, yn ogystal â lle yng Nghanolfan Technoleg Fusnes

sefydledig Caerdydd. Gyda lefel uchel o gysylltedd a seilwaith digidol, mae sylfaen creadigol y ddinas yn feiddgar, yn arloesol ac yn arbrofol gan wneud Caerdydd yn un o'r dinasoedd creadigol mwyaf deinamig yng ngwledydd Prydain.



- Mae Caerdydd yn un o'r sectorau creadigol sy'n tyfu gyflymaf y tu allan i Llundain.



- Mae sector creadigol Caerdydd yn cyfrannu dros £1bn o GYC i economi'r ddinas bob blwyddyn.



- Cartref Sherlock, cynhyrchiad sydd wedi ennill tair Gwobr Emmy, yn ogystal â dau o gynhyrchiadau oriau brig amlycaf y BBC - Dr Who a Casualty.



- Treiddiad band eang cyflym iawn o 98.43%, wedi'i hybu gan Gyfnewidfa Rhyngwrwyd yng nghanol y ddinas.



- Prifysgolion blaenllaw gyda 7,000 o raddedigion yn y diwydiannau creadigol bob blwyddyn mewn pynciau sy'n cynnwys animeiddio, effeithiau gweledol, datblygu technoleg ddigidol a symudol, ffasiwn a chelfyddyd gain.



- Mae tua thraean o holl swyddi diwydiant creadigol Cymru wedi'u lleoli yng Nghaerdydd - mae 3000 o fusnesau creadigol wedi'u lleoli yn y ddinas.

GWYDDORAU BYWYD



Mae sector Gwyddorau Bywyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn symud yn gyflym, yn amrywiol, yn seiliedig ar ymchwil ac wedi'i nodweddu gan fentrau byd-eang gan gynnwys Norgine, Biomet, GE Healthcare a Convatec.

Mae'r sector yn cyflogi 17,000 o bobl yng Nghaerdydd sy'n gweithio mewn meysydd fel elechyd, gwasanaethau fferyllol, meddygaeth aildyfu a thechnoleg feddygol.

Mae gan Gaerdydd gyfran uwch na chyfartaledd y DU o bobl sy'n cael eu cyflogi i weithgynhyrchu offer arbelydru, electrofeddygol ac electrotherapiwtig, offerynnau meddygol a deintyddol, cyflenwadau a pharatoadau fferyllol.

Mae'r sector wedi'i gefnogi'n dda gan brifysgolion y Brifddinas-Ranbarth, sy'n gartref i ymchwil arbenigol flaenllaw gydag elfen fasnachol gref. Mae

arbenigedd ymchwil yn y Gwyddorau Bywyd ledled Cymru yn cael ei ddwyn ynghyd gan y Rhwydwaith Ymchwil Gwyddorau Bywyd dan arweiniad Prifysgol Caerdydd mewn cydweithrediad â 300+ o bartneriaid ymchwil.


Yn ogystal â Chanolfan Feddygol Caerdydd (deorydd technoleg feddygol ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru), bu buddsoddiad sylweddol hefyd yng Nghanolfan Gwyddorau Bywyd Cymru, sydd wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd, sy'n ganolfan ar gyfer sefydliadau academiaidd a gofal iechyd, ymgynghorwyr arbenigol, a sefydliadau clinigol ac ariannu.

Mae'r Ganolfan yn ceisio ysgogi rhyngweithio, arloesi, rhwydweithio a chydweithredu, gan wireddu'r cysylltiad rhwng syniadau a masnacheiddio a darparu adnodd masnachol ar gyfer y sector.

GWYDDORAU BYWYD

Mae'r rhwydwaith yn hyrwyddo cydweithredu o fewn y gymuned gwyddorau bywyd a thechnoleg iechyd ac yn hwyluso mynediad at gyfleoedd masnach byd-eang ac arbenigedd clinigol.

Drwy eu Hacademi Gwyddorau Bywyd, mae MediWales yn cysylltu cwmnïau â myfyrwyr a graddedigion sydd â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ac yn cynnal cyrsiau hyfforddi i wella sgiliau allweddol o fewn y sector.



- Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gartref i un o bum cwmni diagnostig mwyaf blaenllaw'r byd, Ortho Clinical Diagnostics, Canolfan Arloesi Clwyfau Cymru sydd werth £4 miliwn, ReNeuron, y cwmni cyntaf i gynnal treialon clinigol o fôn-gelloedd mewn cleifion strôc a chwmni fferyllol arbenigol Ewropeaidd blaenllaw, Norgine.

- Mae Prifysgol Caerdydd yn ganolfan i Syr Martin Evans, Enillydd Gwobr Nobel, ar gyfer darganfod bôn-gelloedd embryonig, ac yn cynnwys Canolfan MRC ar gyfer Geneteg Niwroseiciatrig a Chanolfan Delweddu er Ymchwil yr Ymennydd (CUBRIC)